



Llywodraeth Cymru
Drwy e-bost at:
Cymraeg2050@llyw.cymru

27/09/2024/

Annwyl gyfeillion

Technoleg a'r Gymraeg: galwad am dystiolaeth

Rydym yn falch o'r cyfle i gyfrannu'n ffurfiol at yr alwad yma am dystiolaeth ac i gefnogi eich ymdrechion i ddeall anghenion pobl sydd eisiau defnyddio technoleg iaith Gymraeg, a chwilio am syniadau am beth sydd ei angen i wneud technoleg iaith Gymraeg yn haws i'w defnyddio.

Cydweithio cyson yn y maes

Mae ein hymateb yn ymgais i gofnodi'r trafodaethau rheolaidd sydd rhyngom ni. Mae'r sgysiau hyn yn gyfle i ni bwysleisio'r rhwystrau – a'r cyfleon – mae sefydliadau yn eu profi wrth geisio gweithredu safonau'r Gymraeg. Maent hefyd yn gyfle i ni glywed gennych chi am y datblygiadau arwyddocaol sydd wedi bod yn y maes hwn, a rhaeadru'r wybodaeth honno yn ôl i'r sefydliadau. Mae'n amlwg o'r wybodaeth a gyflwynwn yn yr ymateb hwn bod rhagor o waith gennym i'w wneud i wella dealltwriaeth o'r hyn sydd ar gael, ac i sicrhau bod cynllunio o fewn sefydliadau yn gwella.

Un o'r pethau rydym wedi ceisio ei wneud eleni i fynd i'r afael â'r bwlch gwybodaeth yma yw cydweithio â chi i gynnal dwy gynhadledd am Dechnoleg, Gwasanaethau Digidol a'r Gymraeg i sefydliadau. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle i ni gasglu adborth gan y sefydliadau am ba heriau maen nhw'n eu hwynebu a pha gymorth y carent ei dderbyn. Rydym yn crynhoi'r materion a nodwyd mewn atodiad er hwylustod.

Gwyddom na fydd y rhestr hon yn 'newydd' i chi fel y cyfryw, ond gobeithio bod crynhoi'r pwyntiau mewn un man yn ddefnyddiol ac yn ein galluogi i drafod sut y gallwn eu datrys ar y cyd. Yn ogystal â pheidio bod yn 'newydd', rydym yn cydnabod bod rhai o'r datrysiadau

Comisiynydd y Gymraeg

Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221

post@comisiynyddygybraeg.cymru

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.cymru

Welsh Language Commissioner

Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221

post@welshlanguagecommissioner.wales

Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



i'r problemau hyn yn bodoli eisoes a bod gwaith pellach i'w wneud i wella ymwybyddiaeth ohonynt.

Rydym yn teimlo bod gennym ni rôl allweddol i'w chwarae yn hyn ac yn awyddus iawn i drafod sut y gallwn ni gydweithio â chi – a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol – i gynllunio cyfleoedd a digwyddiadau pwrpasol i fynd i'r afael â'r materion sy'n cael eu nodi. Er enghraifft, gallem wneud rhagor gyda'n gilydd i annog sefydliadau i rannu adnoddau, gan gynnwys cofau cyfieithu, gyda'i gilydd ac yn agored drwy drwyddedau caniatadol.

Fel y gwyddoch, rydym bellach yn gweithredu dull o gyd-reoleiddio – dull sy'n golygu gweithio'n agosach, a chynnal trafodaethau mwy ystyrion â'r bobl a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw. Mae hyn yn ein galluogi i fod yn fwy cefnogol, gan ddarparu cymorth ymarferol ac arweiniad i sefydliadau i sicrhau cydymffurfiaeth a gwella parhaus. Ein nod yw helpu sefydliadau i weithredu mewn ffordd sy'n hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, gan greu amgylchedd lle gallant ffynnu wrth fodloni'r gofynion rheoleiddio. Rydym yn rhagweld y bydd hwn yn waith parhaus i ni, ac mae technoleg yn faes ffrwythlon ar gyfer cynnig cefnogaeth o'r fath.

Yn ogystal ag adnabod yr heriau presennol, rydym yn effro i heriau'r dyfodol hefyd. Yn ein hadroddiad diweddar [Cyflawni Newid gyda'n Gilydd](#) gwnaethom nodi'r canlynol:

Mae datblygiadau technolegol, gan gynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial (AI) at ddibenion cyffredinol, yn codi sawl ystyriaeth newydd ar gyfer rheoleiddio safonau'r Gymraeg yn effeithiol i'r dyfodol. Er bod datblygiadau technolegol o'r math hwn yn cynnig cyfleoedd newydd i gefnogi darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, mae hefyd risg na chaiff y Gymraeg ei gwreiddio mewn datblygiadau o'r fath.

Yn unol â'n hymrwymiad i weithredu dull o gyd-reoleiddio, a chan gydnabod y buddion cyfunol o gyd-ddeall a rheoli unrhyw risgiau posibl i gydymffurfiaeth wrth i dechnoleg esblygu ac arloesi, byddwn yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddeall yn well goblygiadau technoleg ar gyfer y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gallwn ni fel rheoleiddiwr gefnogi sefydliadau wrth iddynt dreialu ffyrdd newydd o weithio cyn eu defnyddio yn ehangach.

Bydd y gwaith yma'n darparu sail gadarn i ni ddatblygu safbwynt polisi ar reoleiddio AI mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn i ddod.

Chi sydd yn arwain ar y maes polisi hwn, wrth gwrs, ond fel mae'r ymateb yma'n egluro, mae'n faes o ddiddordeb mawr i ni, ac yn berthnasol i'n rôl rheoleiddio, ac rydym yn awyddus i chi fanteisio ar bob cyfle i gydweithio â ni. Gall ein cysylltiadau rhyngwladol drwy Gymdeithas Ryngwladol y Comisiynwyr Iaith fod yn ddefnyddiol wrth i chi bwysu am ddatrysiadau gan y cwmnïau mawr rhyngwladol, er enghraifft.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Hoffwn ddymuno'n dda i chi ar y gwaith, ac edrychaf ymlaen at weld eich cynlluniau maes o law.

Yn gywir iawn,

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg



Atodiad

Crynodeb o'r heriau mae sefydliadau yn eu profi:

1. Cynllunio a chydweithio

- Mae diffyg ystyriaeth i'r Gymraeg ar gychwyn proses yn rhwystro datblygiadau nes ymlaen yn y broses.
- Nid yw'r Gymraeg – na materion yn ymwneud â chasglu data am y Gymraeg – yn cael eu blaenoriaethu wrth gynllunio systemau.
- Mae canfyddiad nad oes digon o rannu gwybodaeth ymhlith sefydliadau tebyg yn digwydd ar hyn o bryd.
- Mae angen targedu arweinwyr sefydliadau a sicrhau eu bod nhw'n ymwybodol o'r angen i gynllunio'n ofalus yn y maes hwn a chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n flaengar.
- Mae awydd i weld y Llywodraeth a'r Comisiynydd yn gwneud rhagor i annog sefydliadau i rannu adnoddau, gan gynnwys cofau cyfieithu, gyda'i gilydd ac yn agored drwy drwyddedau caniataol.
- Ac yn sicr mae awydd i gydweithio ar draws sefydliadau a sectorau i gaffael systemau neu wasanaethau ar y cyd, ond cydnabyddiaeth bod angen i gorff canolog arwain ar ymarferiad pwrcasu uchelgeisiol o'r math hwn.

2. Diffyg adborth defnyddwyr

- Mae teimlad cyffredinol nad oes digon o waith ymchwil yn cael i wneud i gasglu adborth neu fewnbwn gan ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith, gan gynnwys cyn lansio'r gwasanaeth.
- Mae diffyg data am ymddygiad ac arferion defnyddwyr yn her ac mae awydd i weld rhagor o rannu data ac ystadegau am ymddygiad defnyddwyr.
- Mae nifer o sefydliadau yn gweld bod defnyddwyr yn amharod i ddefnyddio fersiynau Cymraeg er eu bod ar gael, ac mae angen rhagor o ymchwil i ddeall pam a sut mae newid hynny.
- Pwysleisiwyd yr angen i ymgysylltu'n benodol â phlant a phobl ifanc er mwyn deall eu blaenoriaethau nhw. Mae'n hanfodol deall sut maen nhw'n defnyddio technoleg a pha ddewisiadau maen nhw'n eu gwneud mewn perthynas â dewis iaith er mwyn cynllunio darpariaethau'r dyfodol.
- Mae angen ymgysylltu'n benodol hefyd â defnyddwyr bregus neu sydd ag anghenion ychwanegol.



3. Datblygu sgiliau'r gweithlu TG

- Mae ymdeimlad cyffredinol fod yna ddiffyg ymwybyddiaeth eang ymhlith swyddogion technegol am ofynion y safonau a chynlluniau iaith. Mae hyn, yn ei dro, yn golygu nad oes gwybodaeth ganddynt am arferion da o ran technoleg Gymraeg. Rhagwelwn bod rôl i ni gynorthwyo yma.
- Mae angen darparu hyfforddiant wedi'i deilwra'n benodol i swyddogion TG er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r angen i ddatblygu technoleg yn Gymraeg a'u haddysgu am y gofynion. Dyma faes arall lle y byddem yn awyddus i gytuno pwy ddylai arwain a chydlyn.
- Cafwyd awgrym fod swyddogion technegol yn gyffredinol gyndyn o fynychu digwyddiadau perthnasol ac nac ydynt yn ymgysylltu â rhanddeiliaid pwysig ym maes technoleg Gymraeg. Gall hyn fod yn amlycach fyth i gyrrff sy'n gweithredu ar draws y DU, ac yn enwedig felly pan nad yw'r swyddogion wedi eu lleoli yng Nghymru.
- Mae teimlad hefyd fod swyddogion technegol yn aml yn defnyddio iaith dechnegol nad yw swyddogion polisi yn ei deall a bod angen cyfathrebu â nhw gan ddefnyddio'r ieithwedd a'r derminoleg dechnegol addas – rhaid gwybod sut mae siarad eu hiaith, fel petai.
- Mae angen sefydlu rhwydwaith o bencampwyr iaith Gymraeg digidol. Byddai sefydlu cymunedau ymarfer i gyd-gysylltu arfer da a'i gwneud yn haws darganfod eraill sydd eisoes wedi datrys problem yn gymwynas. Eto, hoffem drafod a oes gennym rôl i'w chwarae yma.
- Mae nodau arbennig y Gymraeg yn dal i beri rhwystr ac mae pobl yn cael trafferth yn benodol â sut mae ymdrin â chwestiynau ie/na yn y Gymraeg. Mae angen man canolog i rannu dulliau a datrysiadau ymarferol er mwyn cefnogi cyrrff i ymdrin â'r rhain.

4. Datblygu sgiliau'r gweithlu cyffredinol

- Mae angen marchnata a hyrwyddo adnoddau digidol Gymraeg yn well a sicrhau bod swyddogion iaith, ac eraill, yn cael gwybod am y datblygiadau diweddaraf.
- Mae angen hefyd addysgu'r gweithlu ehangach fydd yn defnyddio'r datrysiadau maes o law a chodi eu hyder. Gall hyn fod ar ffurf sesiynau byr ymarferol ar adnoddau penodol (wedi eu recordio ymlaen llaw o bosibl).
- Mae angen dosbarthu rhagor o enghreifftiau o arferion effeithiol a byddai croeso i gyfres o sesiynau byr yn amlygu'r rhain.
- Mae angen cynyddu hyder siaradwyr Gymraeg i fentro defnyddio rhyngwynebau Gymraeg ac adnoddau Gymraeg eraill sy'n cael eu comisiynu.



5. Cyngor, Canllawiau a thempledi

- Dyw pobl ddim yn siŵr ble i droi am arweiniad felly byddai'n dda cael siop-un-stop ar gyfer yr holl adnoddau a chanllawiau perthnasol.
- Mae angen diweddarau'r canllawiau sydd eisoes ar gael gan Lywodraeth Cymru a gan y Comisiynydd, gan sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn hygyrch ac yn cefnogi'r broses gaffael i'r eithaf, er enghraifft drwy gysoni a chrynhoi gofynion i'w cynnwys mewn tendrau a darparu templedi eglur ar gyfer profi cynnyrch terfynol. Dylid sicrhau bod y rhain yn cael eu prif-ffrydio drwy wasanaethau pwrcasu canolog.
- Mae angen adolygu perthnasedd y canllawiau hefyd o ystyried y datblygiadau sylweddol ym maes deallusrwydd artiffisial.
- Mae angen datblygu rhagor o ganllawiau penodol ar gyfer swyddogion TG.
- Byddai'n gymwynas sefydlu un pwynt cyswllt, neu siop-un-stop ar gyfer ymholiadau yn ymwneud â gwasanaethau digidol dwyieithog er mwyn paru datblygwyr neu swyddogion TG ag arbenigwyr perthnasol.

6. Delio â darparwyr trydydd parti

- Mae'n parhau'n heriol i gael cyflenwyr i ddeall anghenion gwirioneddol defnyddwyr dwyieithog (er gwaetha'r canllawiau sy'n bodoli). Ceir diffyg ymwybyddiaeth o'r iaith a'i chyd-destun hefyd.
- Mae angen darparu cyrsiau neu gyfleoedd i addysgu cwmnïau technoleg ynglŷn â gofynion y safonau a'r adnoddau technolegol sydd eisoes ar gael. Hoffem drafod sut allem gynorthwyo i sicrhau hyn.
- Mae diffyg sgiliau Cymraeg ymysg cwmnïau a darparwyr allanol yn ei gwneud hi'n heriol datblygu deunydd, ac mae cwmnïau yn ymrwymo weithiau i greu fersiynau Cymraeg ond yn profi anawsterau yn nes ymlaen yn y broses.
- Mae diffyg dewis o ddarparwyr sydd ag arbenigedd digonol yn y maes yma ac mae awydd i weld rhestr gyhoeddus o ddarparwyr penodol sydd wedi profi bod ganddynt gymhwyster/arbenigedd.
- Mae angen cyfeirlyfr hwylus o gwmnïau sydd wedi creu meddalwedd Cymraeg yn llwyddiannus (e.e. systemau adnoddau dynol neu archebu lle mewn digwyddiad). Byddai'n fanteisiol prif-ffrydio ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg i blatfformau megis [Digital Marketplace](#), er enghraifft.

7. Cyweiriau iaith a therminoleg

- Mae gwybod sut i ysgrifennu cynnwys hawdd ei ddeall mewn cywair syml, atyniadol yn parhau i fod yn her ac mae pobl yn ansicr ynghylch priodoldeb defnyddio tafodiaith mewn cyweiriau anffurfiol.
- Nodwyd hefyd fod yna ddiffyg cysondeb yn y defnydd o dermau technegol a bod angen ffynhonnell awdurdodol o derminoleg safonol. Mae angen gwneud rhagor i fathu a safoni/cysoni termau yn y byd hwn er mwyn hwyluso profiad y defnyddiwr.



- Mae angen parhau i fuddsoddi mewn gwirwyr sillafu a gramadeg a'u dosbarthu'n eang.

8. Hygyrchedd

- Yn rhy aml mae sefydliadau yn ei gweld hi'n heriol ystyried gofynion hygyrchedd wrth baratoi gwasanaethau dwyieithog – mae angen dathlu arferion llwyddiannus ac arloesol yn y maes hwn i dawelu ofnau.
- Mae creu fideos gydag is-deitlau Cymraeg a Saesneg yn her benodol ac mae angen rhagor o arweiniad ynghylch arfer gorau – yn ogystal â sicrhau bod technoleg yn cefnogi'r gwaith ac yn arbed arian i sefydliadau.

9. Cyfryngau cymdeithasol

- Mae rhwystredigaethau parhaus â rhai o'r prif blatfformau, er enghraifft, diffyg rhyngwynebau Cymraeg a heriau hefyd ynghylch sut maen nhw'n ymdrin â chynnwys Cymraeg (gan gynnwys cyfieithu awtomatig gwallus a phroblemus).
- Pwysleisiwyd hefyd fod natur chwim y cyfryngau hyn yn cyflwyno heriau o ran creu a chyhoeddi cynnwys Cymraeg.

10. Gwefannau

- Mae sefydliadau yn parhau i gael trafferth i reoli cynnwys sy'n cael ei uwch lwytho i wefannau a rhwystro cynnwys uniaith Saesneg rhag cael ei gyhoeddi.
- Mae nifer a maint gwefannau yn cyfrannu at yr her ac mae ymdeimlad bod gan ormod o staff fynediad at gefn gwefannau.
- Nodwyd her benodol yng nghyd-destun y wefan gov.uk sy'n gweithredu ar lefel y Deyrnas Unedig.

11. Apiau

- Mae'r ffaith bod iaith ap yn aml yn cael ei phennu gan ddewis iaith yng ngosodiadau'r ddyfais yn gwneud y Gymraeg yn llai hygyrch a gweladwy.
- Mae ymdeimlad hefyd fod angen rhagor o apiau dwyieithog yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- Cwmnïau trydydd parti sy'n dal yr wybodaeth graidd ar gyfer apiau mewn rhai sectorau penodol, ond mae'r wybodaeth honno yn Saesneg yn unig.

12. Systemau ffôn a sgysfotiaid

- Mae creu system awtomatig newydd ar gyfer gwasanaethau ffôn er mwyn gallu cynnig y Gymraeg yn rhagweithiol yn gallu bod yn heriol ac yn gostus.
- Mae nifer o sefydliadau wedi profi heriau wrth gynllunio gwasanaethau sgwrs fot.



13. Deallusrwydd artiffisial

- Mae pryder gwirioneddol fod y maes hwn yn datblygu mor gyflym nad oes modd rhagweld beth fydd yn dod nesaf. Mae hefyd pryder y bydd y Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl ac yn cael ei gweld yn amherthnasol os nad yw'n cael ei chynnwys yn y datblygiadau hyn.
- Mynegwyd y pryderon mwyaf mewn perthynas â'r maes addysg. Mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol yn y sector hwn. Rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth yn Gymraeg yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn Saesneg rhag tanseilio gwerth y Gymraeg fel cyfrwng addysg.
- Mae sefydliadau yn dymuno arloesi yn y maes hwn i gynllunio gwasanaethau ond mae angen rhagor o arweiniad cadarn arnynt. Mae ansicrwydd ynglŷn â defnyddio technoleg wrth drin data sensitif, er enghraifft.

14. Ariannu datblygiadau

- Mae diffyg galw am dechnoleg Cymraeg yn ei gwneud hi'n anodd cyfiawnhau'r gost a'r buddsoddiad.
- Mae sefydliadau yn teimlo bod diffyg cymorth ariannol yn rhwystr iddynt ddatblygu a gwella systemau.
- Yn ogystal ag ariannu systemau, mae yna brinder cyllid i greu cynnwys Cymraeg gwreiddiol neu i gyfieithu adnoddau sy'n bodoli eisoes – er enghraifft adnoddau hyfforddiant digidol.
- Roedd nifer o sefydliadau yn teimlo bod angen ariannu systemau cenedlaethol ar y cyd a bod angen datblygu system gaffael yn y maes hwn i wasanaethu Cymru gyfan fel nad oes rhaid i sefydliadau bwrcasu mewn gwagle. Mae teimlad bod yna botensial i gomisiynu datrysiadau ar y cyd sydd ddim yn cael ei wireddu ar hyn o bryd a bod angen adnodd i ddatblygu fframwaith i wneud hyn.

15. Diffyg darpariaeth

- Mae rhwystredigaeth nad oes modd prynu meddalwedd Cymraeg oddi ar y silff bob tro – er enghraifft, meddalwedd rheoli prosiect – a bod yna orddibyniaeth ar gwmnïau mawr rhyngwladol i alluogi defnydd o'r Gymraeg.
- Mae rhai o'r cwmnïau mawrion hyn yn darparu rhan – ond nid y cyfan – o'u gwasanaeth yn Gymraeg ac mae hyn yn amharu ar brofiad y defnyddiwr a gallu sefydliadau i gynnig dewis iaith gwirioneddol a chyson i'w defnyddwyr.

16. Diffyg grym

- Mae sefydliadau yn teimlo bod angen cefnogaeth arnynt i berswadio cwmnïau bod gwerth masnachol i ddatblygu adnoddau Cymraeg a dwyieithog.
- Maent yn dymuno derbyn rhagor o arweiniad ar sut i ddarbwylllo pobl o'r angen i fuddsoddi mewn technoleg.



**Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner**

- Mae angen gwneud rhagor o lobïo ar y cyd i gael systemau Cymraeg newydd ac i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chynnwys yn iaith greiddiol gan y cwmnïau mawrion.
- Nododd nifer o sefydliadau eu hymrwymiad i gydweithio â'r Llywodraeth i greu achos gyda darparwyr a datblygwyr technoleg mawr ac roedd ymdeimlad y gallai cyrff ymbarél hefyd wneud rhagor i gefnogi'r ymgyrch hon.